



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: LIC44296

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad - Crynodeb o'r Ymatebion

Ardrethi Annomestig

Ymgynghoriad technegol ar y rhestr ardrethi ganolog ar gyfer ailbrizio
ardrethi annomestig 2023 – Crynodeb o'r Ymatebion

17 Mehefin 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad technegol ar ailbriso ardrethi annomestig 2023: rhestr ardrethi ganolog.

Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon at ddibenion gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt:

Am ragor o wybodaeth:
Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LGFR.Consultations@llyw.cymru

Copiâu Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori:

[Ailbriso ardrethi annomestig 2023: y rhestr ardrethi ganolog | LLYW.CYMRU](#)

Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Cynigion	4
Ymgysylltu.....	5
Trosolwg o'r ymatebion	6
Crynodeb o'r ymatebion	6
Y camau nesaf	7
Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr.....	9

Cyflwyniad

1. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Ddatganiad Ysgrifenedig](#) ym mis Awst 2020 yn nodi y byddai'r ymarfer ailbriso ardrethi annomestig nesaf yn symud i 2023, er mwyn cyfrif am effaith economaidd pandemig y coronafeirws.
2. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno rhestri ardrethi newydd yng Nghymru o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Fel arfer, caiff unedau eiddo sy'n atebol i dalu ardrethi annomestig – a elwir yn hereditamentau – eu hasesu ar restr ardrethi a ddelir gan awdurdodau bilio (rhestr ardrethi lleol). Mae'r hereditamentau'n ymddangos ar y rhestr ardrethi lleol ar gyfer ardal yr awdurdod bilio y maent wedi'u lleoli ynddi. Mae hereditamentau sy'n croesi mwy nag un ardal awdurdod bilio yn ymddangos ar restr ardrethi lleol yr awdurdod bilio sydd, ym marn y Swyddog Priso, yn cynnwys y rhan fwyaf o ran gwerth.
3. Yn ogystal â rhestr ardrethi lleol, mae gan Gymru restr ardrethi ganolog sy'n cynnwys hereditamentau nad ydynt, yn ôl eu natur, yn addas i'w cynnwys mewn rhestr ardrethi lleol (ee rhwydweithiau cyfleustodau). Mae'r rhestr ardrethi ganolog ar gyfer Cymru ar gael ar [wefan](#) Asiantaeth y Swyddfa Briso. Nid yw'r hereditamentau a gaiff eu cynnwys ar y rhestr ardrethi ganolog yn ymddangos ar restr ardrethi lleol. Caiff y biliau ardrethi annomestig am hereditamentau ar y rhestr ganolog eu talu'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, tra bod y biliau ardrethi annomestig am hereditamentau ar restr ardrethi lleol eu talu i'r awdurdod bilio perthnasol.
4. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn am newidiadau arfaethedig i'r rhestr ardrethi ganolog ar gyfer ymarfer ailbriso ardrethi annomestig 2023. Nid yw'n ymestyn i asesu gwerth ardrethol hereditamentau na materion megis natur ardrethadwy peiriannau a pheirianwaith a rhyddhadau.
5. Dim ond i Gymru y mae'r ymgynghoriad hwn yn gymwys.

Cynigion

6. Mae nifer o hereditamentau i'w gweld ar restr ardrethi lleol ar hyn o bryd y gallai fod yn fwy priodol eu cynnwys ar y rhestr ardrethi ganolog. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig symud rhai hereditamentau i'r rhestr ardrethi ganolog ar gyfer dechrau'r rhestr ardrethi nesaf, ar 1 Ebrill 2023.

Rhwydweithiau telathrebu

7. Cynigiodd Llywodraeth Cymru symud rhwydweithiau telathrebu mawr i'r rhestr ardrethi ganolog ar gyfer ymarfer ailbriso 2023. Byddai llinellau ffeibr preifat bach yn aros ar restr ardrethi lleol.

Y sector telathrebu symudol

8. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid rhagnodi un hereditament ar gyfer pob gweithredwr telathrebu symudol sy'n cwmpasu ei gyfarpar ardrethol gweithredol (megis mastiau, polion, tyrrau, ffeibrau a safleoedd) a'i symud i'r rhestr ardrethi ganolog ar gyfer ymarfer ailbrizio 2023.
9. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu sut y dylai hereditamentau yn y sector telathrebu symudol gael eu hasesu er mwyn cyfrif am 5G. Byddai pob gweithredwr telathrebu symudol yn talu un bil ardrethi annomestig i Gymru ar gyfer ei holl dir a chyfarpar ardrethol gweithredol.

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Offer Telathrebu) (Cymru) 2000: 'y rheoliadau rhannu mast'

10. Yn 2000, gwnaeth Llywodraeth Cymru reoliadau yn darparu y dylai mastiau telathrebu lle ceir offer sawl gweithredwr telathrebu symudol gael eu trin fel un asesiad gyda chynhaliwr y safle yn atebol am dalu'r ardrethi annomestig.
11. Cafodd y rheoliadau rhannu mast eu gwneud i wella'r broses o weinyddu'r system ardrethi annomestig a dileu rhwystr posibl i annog darparwyr symudol i rannu mastiau.
12. Pe bai cynigion eraill yn cael eu datblygu, gallai'r rheoliadau rhannu mast greu ansicrwydd ynghylch prisiu'r asesiadau newydd ar gyfer y rhestr ardrethi ganolog. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diddymu'r rheoliadau rhannu mast, o 1 Ebrill 2023.

Rheilffyrdd

13. Cynigiodd Llywodraeth Cymru y byddai unrhyw wasanaethau rheilffordd rhanbarthol newydd sy'n croesi sawl ardal awdurdodau bilio yn cael eu cynnwys ar y rhestr ardrethi ganolog.
14. Pa bai gwasanaethau rheilffyrdd lleol, megis systemau tram, yn cael eu datblygu a'u bod wedi'u lleoli'n bennaf mewn un ardal awdurdod bilio, rhagwelir y byddai'r rhain yn cael eu dosbarthu ar y rhestr ardrethi leol.

Ymgysylltu

15. Gofynnwyd am safbwyntiau pobl fel rhan o ymgynghoriad 12 wythnos o hyd a ddechreuodd ar 21 Ionawr 2022 ac a ddaeth i ben ar 15 Ebrill 2022. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghoriadau gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Trosolwg o'r ymatebion

16. Cafwyd cyfanswm o chwe ymateb i'r ymgynghoriad, dau ohonynt gan awdurdodau lleol, un gan weithredwr telathrebu mawr, un gan asiant ardrethu, un gan gorff cynrychioliadol, ac un gan unigolyn.
17. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Crynodeb o'r ymatebion

18. Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a gafwyd. Nid yw'n ceisio nodi pob pwynt a wnaed gan ymatebwyr, ond tynnu sylw at y prif themâu. Lle'r oedd yr ymatebion yn cytuno â'r cynigion, darparwyd safbwyntiau cyfyngedig.

C1. Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o drin rhwydweithiau telathrebu o ran y Rhestr Ardrethi Ganolog?

19. O'r chwe ymateb a gafwyd, roedd tri o blaid y cynnig, tra bod un yn ansicr. Nododd y gweithredwr telathrebu mawr bryder ynghylch y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer prisio ffeibr yn fwy eang. Dywedodd yr asiant ardrethu y byddai'n gwrthwynebu'r cynnig pe bai'r rheoliadau rhannu mast yn cael eu dirymu. Roedd yn credu, pe bai'r rheoliadau rhannu mastiau yn cael eu dirymu, y dylai safleoedd symudol a ffeibr aros ar y rhestri ardrethi lleol.

C2. Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o drin y sector telathrebu symudol o ran y Rhestr Ardrethi Ganolog?

20. O'r chwe ymateb a gafwyd, roedd tri o blaid y cynnig ar y sail y byddai'n lleihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol, tra bod un yn ansicr. Roedd y darparwr telathrebu mawr a'r asiant ardrethu yn erbyn y cynnig. Roedd rhai pryderon y gallai arwain at ganlyniadau anfwriadol i dalwyr ardrethi. Awgrymodd un ymatebydd gynnig amgen ar gyfer lleihau'r baich gweinyddol yn y dyfodol, drwy gadw a diwygio'r rheoliadau rhannu mastiau i gychwyn asesiadau cyfunol y rhestri ardrethi lleol, fel bod yr holl fastiau a feddiannir gan un talwr ardrethi mewn un ardal awdurdod bilio yn cael eu cyfuno'n un asesiad.

C3. Beth yw eich barn am gynigion i ddiddymu'r rheoliadau rhannu mast?

21. O'r chwe ymateb a gafwyd, roedd tri o blaid y cynnig, tra bod un yn ansicr. Nid oedd y ddau ymatebydd arall o blaid y newid gan y byddai'n dirymu'r rheoliadau rhannu mastiau, sydd, yn eu barn hwy, yn ddarn cadarn a gwerthfawr iawn o ddeddfwriaeth.

C4. Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o drin systemau rheilffyrdd o ran y Rhestr Ardrethi Ganolog?

22. O'r chwe ymateb a gafwyd, roedd tri o blaid y cynnig, tra bod un yn ansicr. Ni wnaeth y ddau ymatebydd arall sylwadau.
23. Ni wnaeth yr ymatebwyr o blaid y cynnig ymhelaethu ar y rhesymau dros gymeradwyo'r cynnig.

C5. Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

- i. cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- ii. peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

24. Roedd dau ymatebydd o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg. Ni wnaeth yr ymatebwyr eraill ymateb i'r cwestiwn hwn.

C6. Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y cynigion, yn eich barn chi, er mwyn:

- i. Sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- ii. atal unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

25. Atebodd dau ymatebydd y cwestiwn hwn ac roeddent o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg.

C7. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw bwyntiau cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi.

26. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cyhoeddi adroddiad blynyddol gyda'r wybodaeth am symudiadau i mewn ac allan o'r rhestr ganolog, yn ogystal â data ar sut y caiff referniw o'r rhestr ganolog ei ddsbarthu. Ni atebodd gweddill yr ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Y camau nesaf

27. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y sylwadau a wnaed gan y sector telathrebu mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Gan mai dim ond nifer bach o fusnesau fyddai'n cael eu heffeithio, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhanddeiliaid perthnasol cyn gwneud unrhyw newidiadau.

28. Ni wneir unrhyw newidiadau cyn cyflwyno'r rhestr ardrethi nesaf, ar 1 Ebrill 2023.

29. Gellir ystyried y rhwydweithiau telathrebu mwyaf ac unrhyw wasanaethau rheilffordd rhanbarthol ar gyfer y rhestr ardrethi ganolog yn y dyfodol, yn unol â'r egwyddorion ar gyfer y rhestr ardrethi ganolog ac ar ôl ymgysylltu â thalwyr ardrethi unigol.
30. Ni wneir unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff y sector telathrebu symudol ei drin ac ni fydd y rheoliadau rhannu mastiau yn cael eu dirymu. Mae'n bosibl yr ystyrir dulliau amgen yn y dyfodol.

Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr

Roedd dau o'r ymatebwyr yn dymuno aros yn ddiennw. Dyma'r pedwar ymatebydd arall:

- Avison Young
- BT
- Cyngor Sir Ddinbych
- Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw